....., byddaf yn ysgrifennu atoch i ddweud pwy yw'r person a benodwyd i'r Panel Dethol.

Mae trefniadau hefyd yn eu lle i dderbyn enwebiad Cynghorydd Cymuned/Tref i fod yn aelod o'r Pwyllgor Dethol.

Ar ôl y dyddiad hwn bydd Mrs Jan Adams, y Clerc i'r Panel Dethol, yn cysylltu gyda chwi gyda gwybodaeth am ddyddiad y cyfarfod cyntaf ac am y tro cytunwyd y bydd hwnnw ar .....

Os bydd gennych unrhyw gwestiwn ynghylch y llythyr hwn neu ynghylch yr atodiadau mae croeso i chwi fy ffonio.

Yr eiddoch yn gywir

after the ..... to confirm the identity of the person appointed to the Selection Panel.

Arrangements are also in hand to obtain a nomination of one Town/Community Councillor to be a member of the Selection Committee.

Thereafter, Mrs Jan Adams, who is acting as Clerk to the Selection Panel, will contact you again to confirm the date of the first meeting which has been provisionally agreed for the .....

If there are any matters arising from this letter or enclosures please do not hesitate to telephone me.

Yours sincerely

Lynn Ball

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau/Swyddog Monitro  
Director of Legal and Committee Services/Monitoring Officer

## PENODIADAU I'R PWYLLGOR SAFONAU

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn bwriadu penodi pum aelod o'r cyhoedd (a elwir yn "aelodau annibynnol") ar ei Bwyllgor Safonau 17 Rhagfyr 2011.

Prif swyddogaeth y Pwyllgor Safonau yw derbyn adroddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch unrhyw haerid bod Cynghorydd Sir neu Gynghorydd Tref/Cymuned wedi torri'r Côd Ymddygiad. Ond yn ychwanegol at bum aelod annibynnol bydd ar y Pwyllgor Safonau un Cynghorydd Tref/Cymuned a'r Cadeirydd yn cael ei ethol o blith yr aelodau annibynnol.

### Yn awr rydym yn gwadd ceisiadau gan y cyhoedd sydd :-

- Heb unrhyw gysylltiad â'r Cyngor Sir nac a Chyngor Tref/Cymuned, nac â gwleidyddiaeth leol;
- Sydd yn gymwys i fod ar gofrestr etholwyr Ynys Môn;
- Sy'n medru dangos fod ganddynt lefel uchel o annibyniaeth ac o onestrwydd personol;
- Sydd â rhywfaint o brofiad sy'n berthnasol i waith y Pwyllgor Safonau;
- Sy'n weithgar yn cyfrannu'n bositif yn eu cymuned.

Bydd y Pwyllgor Safonau yn cyfarfod yn Swyddfeydd y Cyngor Sir yn Llangefni ar ôl oriau gweithio.

Yn y lle cyntaf byddwn yn penodi am gyfnod o bedair blynedd ac ni fydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael tâl ond gellir talu rhai costau yn ôl cynllun y Cyngor Sir.

Mae ffurflenni cais a rhagor o fanylion ar gael trwy gysylltu â Miss Lynn Ball, Cyfarwyddwraig Cyfreithiol a Gwasanaethau Pwyllgor a Swyddog Monitro yn yr Adain Gyfreithiol, Swyddfeydd y Cyngor Sir, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW. Rhif ffôn 01248 752568.

### Bydd raid dychwelyd ffurflenni wedi eu llenwi erbyn ..... 2011.

Mae'n bolisi gan y Cyngor Sir i hyrwyddo ac integreiddio cyfleon cyfartal ym mhob agwedd o'i waith. O'r herwydd mae'r Cyngor yn gwadd ceisiadau oddi wrth grwpiau sydd, ar hyn o bryd, yn cael eu tangynrychioli a hynny'n cynnwys merched, a pobl ifanc, phobl gydag anableddau a phobl o leiafrifoedd ethnig. Byddwn yn defnyddio egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored ac yn penodi yn ôl rhinweddau'r unigolyn.

## APPOINTMENTS TO THE STANDARDS COMMITTEE

The Isle of Anglesey County Council intends to appoint five members of the public (called "independent members") to its Standards Committee by the 17<sup>th</sup> December 2011.

The main function of the Standards Committee is to act on reports received from the Public Services Ombudsman for Wales concerning any allegation that a County Councillor or a Town/Community Councillor has breached the Code of Conduct. In addition to the five independent members, the Standards Committee will include one Town/Community Councillor but will elect its Chairperson from among its independent members.

### Applications are therefore invited from members of the public who :-

- have no connection with the County Council, or any Town/Community Council, or local politics;
- are eligible to be included on the register of electors in Anglesey;
- can demonstrate a high level of personal independence and integrity;
- who have some experience relevant to the work of the Standards Committee;
- are actively involved in making a positive contribution to their community.

The Standards Committee will meet at the County Council's Offices in Llangefni, outside working hours.

Appointments will be for an initial period of four years. Successful applicants will not be remunerated but certain expenses will be payable in accordance with the County Council's Scheme.

Application forms and further details may be obtained from Miss Lynn Ball, Director of Legal and Committee Services and Monitoring Officer at The Legal Section, County Council Offices, Llangefni, Isle of Anglesey LL77 7TW. Telephone No. 01248 752568.

### Completed forms must be returned by no later than ..... 2011.

The policy of the County Council is to promote and integrate equality of opportunity into all aspects of its work. The Council therefore welcomes and encourages applications from groups currently under represented, including women, young people, people with a disability and people from ethnic minorities. The principles of fair and open competition will apply and appointment will be made on merit.

Annwyl

**PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR SIR  
YNYS MÔN – CAIS AM AELODAU  
ANNIBYNNOL**

Diolch i chi am eich ymholiad. Gweler ynghlwm os gwelwch yn dda y canlynol :-

1. Gwybodaeth gefndirol yn cynnwys :-
  - y Côt Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn sydd hefyd yn berthnasol i Aelodau'r Pwyllgor Safonau.
  - Rhestr o Lwfansau – bydd y Cyngor Sir yn ad-dalu i Aelodau Annibynnol gostau galwadau ffôn, teithio ac unrhyw dreuliau allan-o-boced eraill a hynny'n unol â threfniadau arferol y Cyngor.
2. Ffurflen gais yn cynnwys
  - Atodiad 1  
Adrannau 80 ac 81 Deddf Llywodraeth Leol 1989
  - Atodiad 2  
Niwtraliaeth/Annibyniaeth Wleidyddol
  - Atodiad 3  
Profiad Perthnasol
  - Atodiad 4  
Cyfraniad i'r Gymuned

Dear

**ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL'S  
STANDARDS COMMITTEE –  
APPLICATION FOR INDEPENDENT  
MEMBERS**

Thank you for your enquiry. Please find attached the following:

1. Background information including:-
  - the Code of Conduct adopted by the Isle of Anglesey County Council and also applicable to Members of the Standards Committee.
  - Schedule of Allowances – the County Council will reimburse independent Members for the cost of telephone calls, travel and any other out of pocket expenses in accordance with the Council's normal procedures.
2. Application form including
  - Appendix 1  
s80 and 81 of the Local Government Act 1989
  - Appendix 2  
Political  
Neutrality/Independence
  - Appendix 3  
Relevant Experience
  - Appendix 4  
Contribution to the Community

3. Amlen gyda'r Post wedi'i dalu

Ar ôl ei llenwi, anfonwch y ffurflen yn ôl os gwelwch yn dda yn yr amlen bwrpasol at Miss Lynn Ball, Cyfarwyddwraig y Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau/Swyddog Monitro, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW erbyn 5pm ar ..... 2011.

Yn anffodus, ni fydd modd ystyried ceisiadau hwyr.

Llawer o ddiolch.

Yr eiddoch yn gywir

3. Prepaid envelope

When completed please return the form in the prepaid envelope provided to Miss Lynn Ball, Director of Legal and Committee Services/Monitoring Officer, Isle of Anglesey County Council, Council Offices, Llangefni, Anglesey LL77 7TW by 5pm on..... 2011.

Regrettably late applications cannot be considered.

Many thanks.

Yours sincerely

Lynn Ball

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau/Swyddog Monitro  
Director of Legal and Committee Services/Monitoring Officer

## **GWYBODAETH GEFNDIROL I YMGEISWYR** **BACKGROUND INFORMATION FOR APPLICANTS**

- Dan gyfraith gwlad mae'n rhaid i'r Cyngor Sir sefydlu Pwyllgor Safonau.
- Mae gwaith y Pwyllgor Safonau yn cyffwrdd â'r holl Gynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref/Cymuned sy'n gynrychiolwyr i etholwyr Ynys Môn.
- Y rhain yw prif ddyletswyddau'r Pwyllgor Safonau :-
  - Gweithredu ar adroddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yng nghyswllt unrhyw haerid fod Cynghorydd wedi torri'r Côt Ymddygiad. Efallai y gofynnir i'r Pwyllgor Safonau gynnal Gwrandawriad ac, os ydyw'n briodol, benderfynu ar gosb i Gynghorydd ar ôl sefydlu bod hwnnw wedi torri'r Côt Ymddygiad. Y gosb fwyaf y gall y Pwyllgor Safonau ei defnyddio yw atal unigolyn rhag bod yn Gynghorydd am gyfnod o chwe mis.
  - Ystyried ceisiadau am ganiatâd arbennig gan Gynghorwyr. Os ydyw'r caniatâd arbennig yn cael ei roddi yna gall y Cynghorydd gyfranogi mewn trafodaeth a phleidleisio ar eitem neu eitemau na châi, fel arall ac oherwydd darpariaeth yn y Côt Ymddygiad, gyfrannu yn ei chylch/cylch. Penderfynir ar geisiadau o'r fath fesul un gan ddibynnu ar a ydyw'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn sefydlu rheswm statudol sy'n caniatáu i'r Pwyllgor Safonau roddi caniatâd arbennig o'r fath. Dan yr amgylchiadau hyn rhaid i'r Pwyllgor Safonau fodloni'i hun bod y budd cyhoeddus yn ystyriaeth bwysicach nag unrhyw waharddiad yn y Côt.
  - Sicrhau fod y Cynghorwyr yn cael hyfforddiant digonol yng nghyswllt y Côt Ymddygiad.
- The County Council is legally required to operate a Standards Committee.
- The work of the Standards Committee extends to all County Councillors and Town/Community Councillors representing the electorate of Anglesey.
- The main functions of the Standards Committee are :-
  - To act on reports received from the Public Services Ombudsman for Wales concerning any allegation that a Councillor has breached the Code of Conduct. The Standards Committee may be asked to conduct a Hearing and, if appropriate, it will issue a sanction against any Councillor whom it finds has breached the Code of Conduct. The maximum sanction available to the Standards Committee is suspension from being a Councillor for six months.
  - To consider applications from Councillors for dispensations. If granted, a dispensation allows a Councillor to take part in discussion and voting on an item or items from which he/she would otherwise be precluded by reason of a provision in the Code of Conduct. These applications are decided on a case by case basis, depending upon whether the evidence presented establishes one of the statutory grounds which permit the Standards Committee to grant such dispensations. In essence, these are circumstances in which the Standards Committee is satisfied that the public interest has been shown to override a prohibition in the Code.
  - To ensure that Councillors are offered adequate training with regard to the Code of Conduct.

- Ar Bwyllgor Safonau Ynys Môn mae pump o aelodau annibynnol (h.y aelodau o'r cyhoedd, nid Cynghorwyr), 3 Cynghorydd Sirol a 1/2 Cynghorydd Tref/Cymuned a'r olaf yn cyfrannu yn y drafodaeth pan fo'r pwnc yn ymwneud â Chynghorydd Tref neu Gymuned. Rhaid dewis un o blith yr aelodau annibynnol i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.
- Daw cyfnodau yr holl aelodau annibynnol presennol i ben ar ..... Ond mae gan yr aelodau hynny hawl i ailymgeisio yn yr un ffordd ag ymgeiswyr eraill.
- I bwrpas dewis Pwyllgor Safonau newydd mae'n rhaid i'r Cyngor, dan y rheoliadau, sefydlu Panel Dethol i benderfynu ar feini prawf, hysbysebu, paratoi rhestr fer a dethol, trwy gyfweiliad y pum aelod annibynnol newydd. Ar Y Panel Dethol mae pum aelod – tri Chynghorydd Sir, sef y Cynghorwyr W J Chorlton, Bob Parry and Bryan Owen. Hefyd mae arno un Gynghorydd Tref/Cymuned, sef ..... ac un aelod lleig, sef ..... Bydd argymhelliad y Panel Dethol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn a bydd raid i hwnnw benodi'n ffurfiol yr aelodau o'r Pwyllgor Safonau newydd a fydd yn dod i rym ar ..... Bydd tymor yr aelodau newydd mewn swydd yn parhau am bedair blynedd.
- Bydd cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau yn cael eu cynnal ym Mhencadlys y Cyngor yn Llangefni ac fel arfer yn ystod oriau gwaith yn ystod yr wythnos waith ar adeg sy'n gyfleus i'r aelodau. Bydd y gwrandawliadau yn gyhoeddus ond yn breifat y trafodir y penderfyniad a wedyn cyhoeddir hwnnw i'r cyhoedd. Yn breifat hefyd y darperir sesiynau hyfforddiant. Darperir lluniaeth. Unwaith yn unig bob 12 mis y mae'n rhaid i'r Pwyllgor Safonau gyfarfod ond oherwydd anghenion hyfforddiant Pwyllgor newydd mae'n debyg y bydd mwy o lawer o gyfarfodydd ar y dechrau. Yn yr 18 mis diwethaf mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod yn rheolaidd
- Anglesey's Standards Committee consists of five independent members (i.e. members of the public and not Councillors), 3 County Councillors and 1/2 Town/Community Councillor(s) who contribute to proceedings only when they relate to a Town or Community Councillor. The Chair of the Standards Committee must be appointed from among the independent members.
- The term of office of each of the current independent members will come to an end on the ..... Current members are entitled to re-apply and to be considered in the same way as other applicants.
- In order to choose a new Standards Committee, in compliance with the regulations, the Council has established a Selection Panel to devise the criteria, advertise, short-list and select, by interview, the five new independent members. The Selection Panel consists of five members, including three County Councillors, who are Councillors W J Chorlton, Bob Parry and Bryan Owen. In addition there will be one Town/Community Councillor, who is Councillor ..... of ..... Ward and one lay member who is ..... The Selection Panel will recommend its selection to the full Council, which must formally appoint the members of the new Standards Committee with effect from the ..... Their term of office will be four years.
- Meetings of the Standards Committee will take place at the Council's Headquarters at Llangefni and will take place usually during the working day on week days and at the convenience of the members. Hearings will be conducted in public but deliberations and decision making will take place in private session and the outcome will be announced in public. Training sessions will also take place in private. Refreshments are provided. The Standards Committee is only required to meet once in every period of 12 months but, in view of the training needs of a new Committee, it is likely that there will be significantly more meetings at the outset.

bron bob mis. Yn ystod y flwyddyn i ddod o mis Mawrth 2011 ymalen bwriedir cael 4 cyfarfod ffurfiol a 4 cyfarfod anffurfiol. Wedyn dibynna nifer y cyfarfodydd ar nifer yr adroddiadau a ddaw o Swyddfa'r Ombwdsmon ac ar y nifer o geisiadau am ganiatâd arbennig.

In the last 18 months the Committee has met regularly almost monthly. During the year from March 2011 onwards it is proposed that there will be 4 formal meetings and 4 informal meetings. Thereafter, the number of meetings will depend upon the number of reports referred from the Ombudsman and the number of applications for dispensations.

- Bydd y Pwyllgor Safonau yn derbyn cefnogaeth Swyddog Monitro'r Cyngor, y Dirprwy Swyddog Monitro a Chyfreithiwr y Swyddog Monitro. Adain Gwasanaethau Pwyllgor y Cyngor fydd yn delio gyda materion gweinyddol. Bydd y swyddogion hyn wrth law bob amser i gynnig cyngor a chymorth a nhw fydd yn paratoi y rhan fwyaf o'r dogfennau yn ôl cyfarwyddyd y Pwyllgor Safonau / Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'n debyg y bydd raid cynnal cyswllt rheolaidd rhwng y Swyddog Monitro a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau.
- Ni fydd aelodau'r Pwyllgor Safonau yn derbyn tâl ond cânt hawlio treuliau yn unol â Chynllun y Cyngor Sir (copi ynghlwm).
- Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu dewis yn ôl haeddiant a rhagoriaeth. Y Panel Dethol fydd yn dadansoddi'r holl geisiadau ysgrifenedig a rhaid i'r rheini gyrraedd erbyn ..... ar ddydd ..... Ni fydd ceisiadau hwyr yn cael sylw. Os ydyw'n briodol bydd y Panel Dethol yn paratoi rhestr fer o ymgeiswyr i'r Panel eu cyfweld trwy wahoddiad. Bydd yr holl ymgeiswyr yn cael gwybod am y sefyllfa ar ôl llunio rhestr fer a chânt wybod beth fydd y canlyniad cyn gynted ag y bo'n bosib ar ôl cwblhau'r holl gyfweiliadau.
- Ar y Ffurflen Gais rhestrir y meini prawf hynny a ddefnyddir wrth ystyried yr ymgeiswyr ond dan y gofynion statudol mae'n bosib y bydd rhai ymgeiswyr posib yn cael eu gwahardd rhag ymgeisio. Mae'r darpariaethau hyn yn ymddangos yn rhan 2.1 y Ffurflen Gais. Cyn cyflwyno'ch cais gofynnir i chwi roddi
- The work of the Standards Committee will be supported by the Council's Monitoring Officer, Deputy Monitoring Officer and Solicitor to the Monitoring Officer. Administrative matters will be dealt with by the Council's Committee Services Section. These officers will be on hand throughout the process to advise and assist. They will be responsible for preparing most of the documentation on the instructions of the Standards Committee/Public Services Ombudsman. It is likely that there will need to be regular contact between the Monitoring Officer and the Chairperson of the Standards Committee.
- Members of the Standards Committee will not be remunerated but expenses will be payable in accordance with the County Council Scheme (copy attached).
- The successful applicants will be selected on merit. The Selection Panel will analyse all written applications which have been received by the deadline at ..... on ..... No late applications will be considered. If appropriate, the Selection Panel will produce a short list of candidates to be invited for interview by the Panel. All applicants will be notified of the position following the short listing and those attending for interview will be advised of the outcome as soon as possible after all interviews have been conducted.
- The Application Form identifies the criteria against which applicants will be considered. There are statutory prohibitions which will disqualify some potential applicants. Details of these are given in part 2.1 of the Application Form. You are asked to give particular consideration to those matters before



syllw arbennig i'r materion hyn.

- Mae gan y Cyngor bolisi dwyieithog llawn a bydd gwasanaethau cyfieithu ar gael fel bod siaradwyr Cymraeg a Saesneg yn medru chwarae rhan lawn ym mhob agwedd ar waith y Pwyllgor Safonau.
  - Bydd y Swyddog Monitro yn trefnu cwrs hyfforddiant i'r Pwyllgor Safonau newydd ond nodir yma bod y Côd Ymddygiad statudol newydd ar hyn o bryd yn ei ffurf ddrafft. Mae'n debyg y daw hwn i rym union cyn yr etholiadau sir nesaf ym mis ..... Oni fyddwn yn dal i ddisgwyl adroddiadau gan yr Ombwdsmon yna mae'n debyg y bydd yr hyfforddiant yn cael ei gyfyngu i'r Côd newydd a hynny er mwyn osgoi dryswch a dyblygu gwaith.
  - Mae'r Pwyllgor Safonau yn gorff statudol sy'n annibynnol ar y Cyngor ac yn derbyn ei gyfarwyddiadau yn uniongyrchol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
  - Mae'n rhaid i bob Cyngor Sir/Tref/ Cymuned fabwysiadu Côd Ymddygiad statudol a gallant ychwanegu gofynion ato. Hefyd rhaid i bob Cynghorydd lofnodi ymrwymiad i gydymffurfio gyda'r Côd - oni fyddant yn gwneud hynny cânt eu gwahardd yn awtomatig. Ynghlwm mae copi o'r Côd sy'n berthnasol i holl Gynghorwyr Sir Ynys Môn.
  - Unwaith y bydd y Cynghorwyr wedi llofnodi ymrwymiad i gydymffurfio gyda'r Côd mae'r Ombwdsmon wedyn yn gyfrifol am ymhöli i unrhyw gwyn ysgrifenedig yn honni fod Cynghorydd wedi torri'r Côd. Gall yr Ombwdsmon ymchwilio ei hun i'r honiad neu ofyn i Swyddog Monitro'r Cyngor gynnal ymholiadau cyn cyflwyno'r mater i'r Pwyllgor Safonau. Yn y lle cyntaf y Pwyllgor Safonau sy'n penderfynu a oes achos i'w ateb ai peidio. Os ydyw'r Pwyllgor yn credu bod achos i'w ateb bydd yn mynd ati i restru'r mater ar gyfer gwrandawriad; bydd y Cynghorydd sy'n cael ei gyhuddo o dorri'r Côd â'r hawl i gyflwyno sylwadau, unai ei hun neu trwy ei gynghorydd cyfreithiol, ac i ateb unrhyw gwestiynau a fo gan y
- submitting your application.
- The Council operates a full bilingual policy and there will be translation services available to enable both Welsh and English speakers to participate fully in all aspects of the Standards Committee's work.
  - The Monitoring Officer will arrange an induction course for the new Standards Committee but it should be noted that a new statutory Code of Conduct is currently in draft format. This is likely to come into effect just before the next local elections in ..... If there are no outstanding reports from the Ombudsman it is likely that that training will be restricted to the new Code to avoid confusion and duplication.
  - The Standards Committee is a statutory body which is independent of the Council receiving instructions direct from the Public Services Ombudsman for Wales.
  - All County/Town/Community Councils are required to adopt a statutory Code of Conduct to which they may add additional requirements. All Councillors are required to sign an undertaking to abide by the Code. Failure to do so would result in automatic disqualification. A copy of the Code which applies to all Anglesey County Councillors is attached.
  - After Councillors have signed an undertaking to abide by the Code, the Ombudsman then becomes responsible for investigating any written complaints alleging a breach of the Code by any Councillor. The Ombudsman may investigate the allegation himself or request the Council's Monitoring Officer to investigate, before bringing the matter before the Standards Committee. In the first instance the Standards Committee determines whether or not there is a case to answer. If the Committee considers there is a case to answer it will list the matter for a hearing; whereby the Councillor accused of having breached the Code will be entitled to make representations, either himself or through

Pwyllgor.

- Wedyn bydd y Pwyllgor Safonau yn penderfynu a ydyw'r Côt Ymddygiad wedi'i dorri ai peidio - os ydyw bydd yn penderfynu pa gosb sy'n briodol. Mae'r cosbau'n amrywio - yn y naill begwn gall fod yn gerydd cyhoeddus a'r Pwyllgor dan amgylchiadau o'r fath yn mynegi anghymeradwyaeth ynghylch yr ymddygiad ac yn y pegwn arall gall atal Cynghorydd rhag bod yn Gynghorydd am gyfnod hyd at chwe mis. Os ydyw'r Pwyllgor Safonau yn penderfynu ar gosb mae hawl apelio ar gael - i Banel Dyfarnu Cymru. Mae'n rhaid cyhoeddi penderfyniadau'r Pwyllgor Safonau yn y wasg leol.
- Yn hytrach na throsglwyddo materion i'r Pwyllgor Safonau gall yr Ombudsmon, dan amgylchiadau priodol, gyfeirio'r materion i Banel Dyfarnu Cenedlaethol Cymru. Os ydyw Tribiwnlys Achosion y Panel Dyfarnu o'r farn bod y Côt wedi'i dorri yna gall gweinyddu cosb a'r gosb lymaf yw wahardd unigolyn rhag bod yn Gynghorydd am gyfnod o bum mlynedd.

his legal advisor, and to answer any questions which the Committee may have.

- The Standards Committee will then determine whether or not the Code of Conduct has been breached and, if so, decide what, if any, sanction is required. The sanctions available range from a public censure, whereby the Committee expresses its disapproval of the conduct complained of, up to suspension from being a Councillor for a maximum of six months. If the Standards Committee applies a sanction, there is a right of appeal available to the Adjudication Panel for Wales. It is required that decisions of the Standards Committee shall be published in the local press.
- As an alternative to referring matters to the Standards Committee, the Ombudsman may, when he considers it appropriate, refer matters to the National Adjudication Panel for Wales. If a Case Tribunal of the Adjudication Panel concludes that the Code has been breached then the maximum sanction available is five years disqualification from being a Councillor.



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

Official Use Only (Keep Clear)  
(SC)

## Pwyllgor Safonau / Standards Committee

**Cais i fod yn Aelod  
Annibynnol ar y Pwyllgor  
Safonau**

**Gofynnir i ymgeiswyr gwblhau pob blwch  
ar y ffurflen**

**Application to be an  
Independent Member of the  
Standards Committee**

**Applicants are asked to please  
complete all boxes on this form.**

### **Rhan 1 : GWYBODAETH BERSONOL / Part 1: PERSONAL INFORMATION**

Teitl/Title: \_\_\_\_\_ Enw Cyntaf/First Name: \_\_\_\_\_

Cyfenw/Surname: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad / Address : \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_ Côt Post / Post Code: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad "e" bost : \_\_\_\_\_ "e" mail address

Rhif ffôn yn ystod y dydd : \_\_\_\_\_ Daytime Tel No

Rhif ffôn gyda'r nos : \_\_\_\_\_ Evening Tel No

Rhif ffôn symudol : \_\_\_\_\_ Mobile Tel No:

Dyddiad Geni : \_\_\_\_\_ Date of Birth:

Gwaith : \_\_\_\_\_ Occupation:

Enw a chyfeiriad eich \_\_\_\_\_ Name and address of your  
Cyflogwr presennol neu'r un diweddaraf current or most recent employer

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

## Rhan 2 : GWAHARDDIAD / Part 2 : DISQUALIFICATION

### 2.1 Gwaharddiad Awtomatig

**Mae rheoliadau statudol yn gwahardd yn awtomatig unrhyw ymgeisydd sydd :**

- Yn gynghorydd neu wedi bod yn gynghorydd ar Gyngor Sir Ynys Môn
- Yn gweithio neu wedi gweithio i Gyngor Sir Ynys Môn
- Yn briod/bartner i gynghorydd sydd ar Gyngor Sir Ynys Môn neu i weithiwr sy'n gweithio i'r Cyngor
- Yn aelod o Gyngor Tref neu Gymuned yn Ynys Môn
- Wedi ei wahardd rhag dal swydd dan Adran 80 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (mae Adran 80 yn cael ei hatgynhyrchu'n llawn yma ac yn ymddangos yn Atodiad 1 ynghlwm wrth y ffurflen hon).
- Ddim yn gymwys i gofrestru fel etholwr yn Ynys Môn
- Yn aelod o Bwyllgor, Is-Bwyllgor, Cydbwyllgor neu Banel sy'n gysylltiedig â Chyngor Sir Ynys Môn.

**I alluogi'r Cyngor i ystyried eich cais nodwch eich cymhwyster drwy arwyddo'r datganiad yn y blwch isod**

**Rwyf yn cadarnhau nad wyf oddi fewn i unrhyw un o'r categorïau a restrir uchod**

### 2.1 Automatic Disqualification

**Statutory regulations automatically disqualify any applicant who is:**

- a current or former county councillor of the Isle of Anglesey County Council
- a current or former employee of the Isle of Anglesey County Council
- the spouse/partner of a current councillor or employee of the Isle of Anglesey County Council
- a member of any Town or Community Council on Anglesey
- precluded from holding office under Section 80 of the Local Government Act 1972. (Section 80 is reproduced in full and attached at Appendix 1 to this form)
- not eligible to be registered as an elector on the Isle of Anglesey
- a member of any Committee, Sub-committee, Joint Committee or Panel connected to the Isle of Anglesey County Council

**To enable the Council to consider your application please confirm your eligibility by signing the statement in the box below**

**I confirm that I do not fall into any of the categories listed above**

**Llofnod yr ymgeisydd / Signature of applicant**

.....

## 2.2 Gwaharddiad Dewisol

Byddwch cystal â chwblhau pob cwestiwn yn Rhan 2.2. Fe all atebion i'r cwestiynau yn yr adran hon arwain i ymgeiswyr gael eu gwahardd. Dibynna hyn ar natur a graddfa ymwneud yr ymgeisydd â'r Cyngor/gweithgaredd gwleidyddol

**2.2.1** Gofynnir i chi, os gwelwch yn dda, i roi manylion o unrhyw berson rydych mewn cysylltiad agos â hwy neu'n perthyn i chi (e.e. ffrind agos, partner, mab/merch, rhiant, brawd/chwaer, neu berthynas agos arall) sydd ar hyn o bryd neu a fu yn Gyngorydd neu weithiwr i Gyngor Sir Ynys Môn neu Cyngor Tref/Cymuned ym Môn. **Os nad oes cysylltiad o'r fath dylech ddweud hyn.**

**2.2.2** Gofynnir i chi os gwelwch yn dda roi manylion o'r nifer a'r math o weithgareddau busnes/masnachol rydych wedi'i gynnal gyda'r Cyngor Sir Ynys Môn yn ystod y 4 blynedd diwethaf. Cyflwynwch y wybodaeth pa un a oedd y busnes wedi'i gynnal gennych fel unigolyn neu fel cyfarwyddwr cwmni. **Os nad ydych wedi gwneud unrhyw fusnes gyda'r Cyngor Sir yn ystod y 4 blynedd diwethaf dylech ddweud hyn.**

## 2.2 Discretionary Disqualification

Please respond to all questions in Part 2.2. The responses to the questions in this section may lead to applicants being disqualified. This will depend on the nature and degree of the applicant's dealings with the Council/political activity.

**2.2.1** Please give details of anyone with whom you are closely associated or related (e.g. close friend, partner, son/daughter, parent, brother/sister or other close relative) who is currently or was formerly a councillor or employee of either the Isle of Anglesey County Council or an Anglesey Town or Community Council. **If you have no such connection then please say so.**

**2.2.2** Please give details of the type and amount of any commercial/business dealings you have transacted with the Isle of Anglesey County Council over the last 4 years. Please provide this information whether or not those business dealings were in your capacity as an individual or as a director of a company. **If you have not transacted any business with the County Council over the last 4 years then please say so.**

2.2.3 Rhowch fanylion os ydych yn dibynnu ar Gyngor Sir Ynys Môn am unrhyw ran o'ch incwm. **Os nad oes unrhyw ddibyniaeth o'r fath dylech ddweud hyn.**

2.2.3 If you rely upon the Isle of Anglesey County Council for any part of your income then please give details. **If there is no such reliance then please say so.**

2.2.4 Gofynnir i chi os gwelwch yn dda roi manylion unrhyw gysylltiad arall sydd gennych gyda Chyngor Sir Ynys Môn, ei Gynghorwyr neu weithwyr pa mor ddibwys neu bell y gall fod. (Dylech ddiystyru'r ffaith eich bod efallai'n derbyn unrhyw wasanaeth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu i'r holl gyhoedd neu i nifer dda ohonynt). **Os nad oes cysylltiad o'r fath gennych yna dylech ddweud hyn.**

2.2.4 Please give details of any other connection with the Isle of Anglesey County Council, its Councillors or employees however remote or insignificant. (Please disregard the fact that you may be the recipient of any service provided by the Council to all or many other members of the public). **If you have no such connection then please say so.**

**2.2.5** Rhaid i aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau fedru dangos niwtraliaeth wleidyddol. Efallai y bydd rhai gweithgareddau yn eich gwahardd. Cyngorir chi i ddarllen Atodiad 2 y ffurflen hon cyn ateb y cwestiwn hwn. **Dylech ddweud os gallwch ddangos eich bod yn wleidyddol annibynnol / niwtral.**

**2.2.5** The independent members of the Standards Committee must be able to demonstrate political neutrality. Certain activities may disqualify. You are advised to read Appendix 2 to this form before completing your reply to this question. **If you can demonstrate political neutrality/independence then please say so.**



### **Rhan 3 : MEINI PRAWF / Part 3 : CRITERIA**

#### **3.1 Profiad Perthnasol**

Gofynnir i chi, os gwelwch yn dda, roi manylion o unrhyw addysg, hyfforddiant, profiad neu sgiliau perthnasol i waith Pwyllgor Safonau. Mae'r Cyngor â diddordeb arbennig mewn clywed gan ymgeiswyr sydd â phrofiad cyfredol neu ddiweddar fel y disgrifir hynny yn Atodiad 3. Byddai'r arbenigedd hwnnw'n cael ei groesawu pa un a ydyw i'w briodoli i gyflogaeth neu fel arall.

**3.1.1** Gofynnir i chi, os gwelwch yn dda, roi manylion o brofiad perthnasol, fel y disgrifir hynny ym mharagraff 3.1 uchod ac yn Atodiad 3, wedi ei ennill trwy gyflogaeth yn y sector preifat, sector cyhoeddus, neu'r ddau.

#### **3.1 Relevant Experience**

Please provide details of any education, training, experience or skills relevant to the work of the Standards Committee. The Council is particularly interested in hearing from applicants who have current or recent experience as described in Appendix 3 to this form. Such expertise would be welcomed whether gained through employment or otherwise.

**3.1.1.** Please provide details of relevant experience, as described in paragraph 3.1 above, and Appendix 3, gained through employment in the private sector, public sector, or both.





**3.1.2** Gofynnir i chi, os gwelwch yn dda, roi manylion o brofiad perthnasol, fel y disgrifir hynny ym mharagraff 3.1 uchod, wedi ei ennill heb fod drwy gyflogaeth, e.e. fel llywodraethwr ysgol, mewn sefydliad gwirfoddol, elusennol neu grefyddol neu mewn cyswllt arall.

**3.1.2** Please provide details of relevant experience, as described in paragraph 3.1 above and Appendix 3, gained other than through employment e.g. as a school governor, in a voluntary, charitable or religious organisation or in some other context.



**3.2 Cyfraniad i'r Gymuned**

Gofynnir i chi, os gwelwch yn dda, roi manylion am eich cyfraniad cyfredol neu ddiweddar i fywyd eich Cymuned. Trowch at Atodiad 4 y ffurflen hon am ragor o gyfarwyddyd ac enghreifftiau. Gallai hyn fod yn rhywbeth megis darparu gwasanaethau i'r cyhoedd trwy gyflogaeth (ond nid gyda'r Cyngor Sir), aelodaeth o gorff llywodraethol ysgol, o sefydliad gwirfoddol, elusennol neu grefyddol neu mewn cyswllt arall.

**3.2 Contribution to the Community**

Please provide details of your involvement in any current or recent contribution to the life of your community. Please refer to Appendix 4 to this form for further guidance and examples. This might involve providing services to the public through employment (other than with the County Council), membership of a school governing body, a voluntary, charitable or religious organisation or in some other context.

DRAFT

**Rhan 4 : GWYBODAETH YCHWANEGOL / Part 4 : ADDITIONAL INFORMATION**

Os oes unrhyw wybodaeth bellach yr ydych yn meddwl y dylai y Cyngor gymryd i ystyriaeth, byddwch cystal â nodi'r manylion isod.

If there is any other information which you think the Council should take into consideration then please give details below



**Rhan 5 / Part 5 :**

Gofynnir i chi, os gwelwch yn dda, roi manylion am ddau unigolyn sy'n fodlon cyflwyno geirda ac yn arbennig yng nghyswllt y meini prawf uchod yn gyffredinol a hefyd yng nghyswllt eich gonestrwydd. Gorau oll petai un ohonynt yn unigolyn o bwys yn y gymuned. Ond oherwydd natur y penodiad gofynnir i chi beidio â chyflwyno enwau cynghorwyr na gweithwyr i'r Cyngor fel canolwyr.

Please provide details of two persons who would be willing to provide references with particular regard to the above criteria generally and also to your personal integrity. Preferably one of the references should be from a person of established standing in the community. However, owing to the nature of the appointment, the names of councillors or Council employees should not be put forward as referees.

Enw / Name	Enw/Name
Cyfeiriad / Address	Cyfeiriad / Address
E-bost/e-mail	E-bost/e-mail
Rhif ffôn / Tel. No. Ffôn symudol/Mobile No.	Rhif ffôn / Tel. No. Ffôn symudol/Mobile No.
Sut ydych chi'n adnabod y person hwn Capacity in which this person is known to you	Sut ydych chi'n adnabod y person hwn Capacity in which this person is known to you

**Rhan 6 : DATGANIAD / Part 6 : DECLARATION**

Gofynnir i chi, os gwelwch yn dda,  
lofnodi a dyddio'r datganiad isod.

Please sign and date the declaration below.

**Hyd y gwn i mae'r wybodaeth yn y ffurflen hon yn gywir /  
To the best of my knowledge the information contained in this form is correct**

**Llofnod yr ymgeisydd / Signature of applicant**

\_\_\_\_\_

**Dyddiad / Date**

\_\_\_\_\_

**Nodiadau i'r Ymgeisydd**

**Notes for Applicant**

- |  |   |
|--|---|
